
# Uchafbwyntiau ein Hadroddiad Hunanasesiad a Llesiant Blynyddol 2022/23

**Rydym yn defnyddio ein Cynllun Sirol a'n Nodweddion ar gyfer Cyngor Rhagorol i wirio ein cynnydd wrth gyflawni uchelgeisiau'r cyngor.**

**Yn Nhorfaen mae blaenoriaethau ein cynllun sirol yn helpu:**

- i godi cyrhaeddiad addysgol
- plant a theuluoedd i ffynnu
- lleihau anghydraddoldeb
- cysylltu pobl a chymunedau
- gwella'r amgylchedd lleol a chynyddu cyfraddau ailgylchu
- busnesau i ddechrau o'r newydd
- pobl i ddewis ffyrdd iachach o fyw
- gwneud cymunedau'n ddiogel ac yn ddeniadol
- darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

**Ein cynnydd o ran cyflawni ein gweithgareddau allweddol yn 2022/23:**




- GLAS (cwblhawyd y cam gweithredu)
- GWYRDD (ar darged)
- AMBR (heb daro'r targed ond llwybr clir yn ôl i 'GWYRDD')
- COCH (heb daro'r targed – pryderon sylweddol)
- DU (cafodd y cam gweithredu ei ddileu)

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da gyda'r mwyafrif helaeth yn taro'r targed neu'n cael eu cwblhau. O'r 191 o brosiectau, 1 yn unig sydd wedi ei ddileu a 7 yn unig sy'n achosi pryder.

**Rhai o'r uchafbwyntiau allweddol o'r flwyddyn ddiwethaf:**

## Amcan Llesiant 1

**– codi cyrhaeddiad addysgol a helpu pobl ifanc ac oedolion i ennill y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen i fyw bywydau cadarnhaol**

- nododd Estyn welliannau o ran arweinyddiaeth a derbyniodd sawl ysgol adroddiadau arolygu cadarnhaol
- gwnaethom gyflwyno strategaeth ADY newydd a Strategaeth Dysgu Digidol newydd
- mae presenoldeb disgyblion yn yr ysgol wedi gwella
- gwelwyd cynnydd yn nifer y cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg
- cyhoeddwyd ein Strategaeth Economi a Sgiliau 8-mlynedd
- fe wnaethom ddechrau raglen profiad gwaith y Cyngor i bobl ifanc ym mis Medi 2023
- fe wnaethom gofrestru 894 o oedolion ar gyrsiau sgiliau hanfodol, TGAU a chyrsiau galwedigaethol
- fe wnaeth gyrraedd 3,555 o drigolion sy'n oedolion oedd angen cymorth i ddod o hyd i waith
- fe wnaethom gynorthwyo dros 350 o bobl ifanc oedd angen cymorth ychwanegol i wneud cynnydd yn yr ysgol
- fe wnaethom gynorthwyo dros 150 o bobl ifanc i fyd gwaith, addysg neu hyfforddiant
- fe wnaethom agor hwb galw heibio i helpu pobl i ddychwelyd i fyd gwaith a gwella'u sgiliau.

## Amcan Llesiant 2

**- annog a hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd fel y gallant ffynnu**

- fe wnaethom leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal o 407 i 388
- fe wnaethom amlinellu cynlluniau ar gyfer cartref preswyl i blant
- fe wnaethom ehangu ein cynllun Dechrau'n deg
- fe wnaethom ymestyn Ysgol Crownbridge
- fe wnaethom osod paneli solar ar 3 ysgol i gynhyrchu trydan.

## Amcan Llesiant 3

**– mynd i'r afael ag anghydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar weithgareddau adnabod ac atal cynnar sy'n cefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, sy'n dwyn boddhad**

- fe wnaethom dalu 4,318 o hawliadau i helpu trigolion i dalu'u rhent
- fe wnaethom dalu 9,716 o hawliadau i helpu trigolion gyda'u Treth y Cyngor
- fe wnaethom helpu pobl i aros yn eu cartrefi gyda thaliadau disgresiwn at gostau tai, gwerth £449,224.



- fe wnaethom dalu 11,863 o drigolion, fel rhan o Gynllun Tanwydd y Gaeaf
- fe wnaethom dalu 2,302 o hawliadau gwerth cyfanswm o £806,000 i ofalwyr di-dâl oedd yn gymwys
- fe wnaethom ddarparu bron i £400,000 mewn taliadau ychwanegol gwerth £150 i gefnogi teuluoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim
- fe wnaethom gefnogi 414 o drigolion drwy'r Cynllun Creu Cymunedau Cryf, er mwyn gwneud y mwyaf o'u hincwm
- ein sefydliad ni oedd y cyntaf yng Nghymru i dderbyn Achrediad Cyflogwr sy'n Ystyriol o Ofalwyr gan y Care Collective
- fe wnaethom greu Isadran Oedolion a Chymunedau newydd i ganolbwyntio ar fynediad drws ffrynt i ofal cymdeithasol i oedolion a byddwn yn datblygu cynnig adsefydlu cymunedol integredig
- fe wnaethom helpu i atal 36 o bobl rhag dod yn ddigartref.

## Amcan Llesiant 4

**– gwneud Torfaen yn fwy cynaliadwy trwy gysylltu pobl a chymunedau, yn gymdeithasol, yn ddigidol ac yn ffisegol**

- fe wnaethom annog teithio llesol drwy wella llwybrau diogel i ysgolion, yn ogystal ag ehangu llwybrau cerdded a beicio
- fe wnaethom ddatblygu 'Dull Cymunedol' newydd i weithio'n agosach yn ein cymunedau lleol
- fe wnaethom gynyddu nifer y ffurflenni a'r gwasanaethau trafodaethol ar ein gwefan
- fe wnaethom ehangu cyswllt di-wifr (wi-fi) cyhoeddus.

## Amcan Llesiant 5

**– ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ailgylchu mwy a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd lleol**

- fe wnaethom gytuno ar ein cynllun gweithredu cyntaf i fynd i'r afael â'r argyfyngau Hinsawdd a Natur
- fe wnaethom osod technoleg adnewyddadwy yn adeiladau'r cyngor
- fe wnaethom reoli mwy o fannau gwyrdd mewn ffordd gadarnhaol o ran bioamrywiaeth
- fe wnaethom reoli 7 Gwarchodfa Natur Leol er budd natur a phobl a dynodi Gwarchodfa Natur Leol newydd ym Mlaenserchan
- fe wnaethom agor siop ailddefnyddio
- fe wnaethom osod 42 o beiriannau gwefru cyhoeddus i wefru cerbydau trydan
- fe wnaethom brynu 15 o gerbydau trydan
- dyfarnwyd Baneri Gwyrdd i 7 safle yn y fwrdeistref
- fe wnaethom newid ein dull o reoli 42 ardal o laswelltir
- fe wnaethom greu canllawiau Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth i ddatblygwyr
- fe wnaethom brynu cerbydau ailgylchu newydd i gynyddu'r hyn yr ydym yn ei gasglu wrth ymyl y ffordd ac anelu at y gyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2025.

## Amcan Llesiant 6

**– gwneud Torfaen yn lle gwych i gynnal busnes drwy weithio gyda chyflogwyr lleol, annog busnesau newydd a gweithgareddau entrepreneuraidd**

- Derbyniodd Pont-y-pŵl grant o £7.6 miliwn i greu swyddi a thyfu'r economi leol
- Mae'r grant yn rhan o'n cynllun i greu Hwb Diwylliannol Pont-y-pŵl gwerth £9.3 miliwn i drawsnewid adfeilion a rhoi hwb i'r economi nos
- fe wnaethom sefydlu Cyswllt Busnes Torfaen sy'n un pwynt cyswllt i fusnesau.

## Amcan Llesiant 7

**– hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw yn Nhorfaen er mwyn gwella lles meddyliol a chorfforol**

- fe wnaethom gefnogi ysgolion a chlybiau i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol drwy roi cyllid a chymwysterau hyfforddi
- fe wnaethom helpu 24 o glybiau cymunedol i gael cyllid grant gwerth cyfanswm o £302,732
- fe wnaethom lansio rhaglen cymorth iechyd meddwl a llesiant newydd i dadau newydd a darpar dadau
- fe wnaethom ddarparu mannau chwarae hygyrch ym Mharc Pont-y-pŵl a Llyn Cychod Cwmbrân
- rydym bellach yn gweithio yn ôl egwyddorion 'Marmot' i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â llesiant hirdymor.

## Amcan Llesiant 8

**– cefnogi ein diwylliant a'n treftadaeth leol a gwneud Torfaen yn lle ffyniannus, diogel a deniadol i fyw ac ymweld ag ef**

- fe wnaethom fabwysiadu dull newydd o leihau tipio anghyfreithlon a mwy o weithredu anffurfiol yn erbyn y sawl sy'n tipio'n anghyfreithlon
- fe wnaethom gyhoeddi cynlluniau creu lleoedd ar gyfer canol trefi Blaenafon a Phont-y-pŵl
- fe wnaethom fuddsoddi £15 miliwn yn ein ffyrdd a'n palmentydd.

## Amcan Llesiant 9

**– darparu gwasanaethau effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau ac yn dymuno cael mynediad at wasanaethau**

- fe wnaethom gynnwys cwsmeriaid i wella dyluniad a'r cynnwys ar ein gwefan
- fe wnaethom ddatblygu Strategaeth Cymunedol i rhoi cyngor, cymorth a chefnogaeth yn ymwneud â bywydau trigolion
- fe wnaethom ddatblygu Cynllun Sy'n Ystyriol o Oedran i helpu i ddiwallu anghenion pobl hŷn
- fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus ac ail-lansio Panel Pobl Torfaen
- fe wnaethom gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc ddweud eu dweud pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau.



# TORFAEN: CYNGOR RHAGOROL:

**Rydym wedi datblygu ein fframwaith mewnol ein hunain i sbarduno gwelliant o fewn Cyngor Torfaen – sef 'Nodweddion Cyngor Rhagorol'.**

Lle mae ein Cynllun Sirol yn canolbwyntio ar y gwelliannau y byddwn yn eu cyflawni ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhorfaen, mae ein fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol yn nodi sut y byddwn yn dod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol, sydd mewn sefyllfa well i gyflawni dyheadau ein Cynllun Sirol.

Isod mae ein 8 nodwedd a throsolwg o'r cynnydd a wnaed i'w cyflawni yn 2022/23.

**1. Cyngor arloesol sy'n …**
- drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- Sy'n barod i dderbyn risg
- Meithrin arloesedd yn y gweithle a thu hwnt
- Chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

**2. Cyngor uchelgeisiol â gweledigaeth, sy'n…**
- Gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- Adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- Sefydlu cyfeiriad pendant a nodau hirdymor
- Lleihau ei ôl-troed carbon

**3. Cyngor sy'n perfformio'n uchel sy'n…**
- Cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
- Sydd bob amser yn dysgu ac yn barod i wella
- Mesur yr hyn sydd o bwys i drigolion a chymunedau
- Defnyddio hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- Deall ei bwrpas a chyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol


**4. Cyngor cydweithredol a chynhwysol sy'n…**
- Trysori arfer cynhwysol a chydraddoldeb
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i dderbyn cefnogaeth i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

**5. Cyngor wedi'i reoli'n dda sy'n…**
- Trysori ei werthoedd craidd
- Gwerthfawrogi lles a chyfraniad staff
- Buddsoddi mewn staff a meddu ar gynlluniau ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol
- Llywodraethu'n dda i sicrhau bod penderfyniadau cadarn yn cael eu gwneud

**6. Cyngor sy'n hygyrch ac yn ymgysylltu, sy'n…**
- Defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
- Cynnwys staff a thrigolion mewn materion sy'n effeithio arnynt
- Croesawu syniadau gan gwsmeriaid a staff
- Agored ac onest gyda staff a thrigolion
- Rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol a dathlu llwyddiant

**7. Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol sy'n …**
- Meithrin dulliau rheoli arian cadar
- Llwyddo i reoli adnoddau a cheisio gwerth am arian
- Cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
- Hyrwyddo buddsoddi mewnol i'r eithaf
- Buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

**8. Cyngor sy'n cael ei arwain gan ddata a phrosesau digidol, sy'n …**
- Defnyddio data i ragweld anghenion
- Adeiladu proffiliau digidol i ddeall teithiau cwsmeriaid yn well
- Cyngor sydd ymlaen o hyd - felly'n galluogi trigolion i gael hyd i ystod eang o wasanaethau digidol
- Cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol






## 1

**Cyngor arloesol sydd wedi:**

- lleihau cyswllt a oedd modd ei osgoi drwy ailgynllunio gwasanaethau a ffurflenni ar lein
- meithrin ymagwedd newydd tuag at Reoli Risg er mwyn cryfhau'r ffordd rydym yn adnabod ac yn rheoli ein risgiau ymhellach
- ailgynllunio'r ganolfan ddinesig i wella gweithio hybrid fel y gall gweithwyr barhau i ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol i'n trigolion.

## 2

**Cyngor uchelgeisiol â gweledigaeth sy'n:**

- defnyddio ei Gynllun Sirol a'i Gynllun Cyflawni blynyddol newydd i fonitro cynnydd ein dyheadau
- defnyddio egwyddorion 'Marmot' i ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â heriau allweddol i les presennol a hirdymor ar draws ein rhanbarth
- cryfhau arweinyddiaeth wleidyddol drwy graffu trawsbleidiol a grwpiau ffocws trawsbleidiol
- datrys problemau drwy greu'r diwylliant a'r amgylchedd sy'n annog arloesedd a chreadigrwydd.

## 3

**Cyngor sy'n perfformio'n uchel, sy'n:**

- monitro a chyfleu ein cynnydd yn ddiwyd o ran blaenoriaethau ein Cynllun Sirol a'n cynlluniau cyflawni

•a gyflwynodd proses Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Gwasanaeth newydd a fydd yn ein helpu i reoli ein gwasanaethau yn well

- a gyflwynodd Power BI a meincnodau awdurdod lleol i'n helpu i gael ein sbarduno mwy gan ddata a gwybodaeth.

## 4

**Cyngor gweithredol a chynhwysol sydd wedi:**

- gweithio gyda phartneriaid i gyflawni Cynllun Llesiant Gwent a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- gwella'r hyn y mae ein gweithlu yn ei ddeall am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- creu amgylchedd ar gyfer her adeiladol a diwylliant drws agored ledled y sefydliad
- cyflwyno Strategaeth Llesiant Cymunedol sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio'n agosach gyda'n cymunedau i wella gwytnwch cymunedol.
- cyflwyno Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ac yn cynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau allweddol.

## 5

**Cyngor wedi ei rheoli'n dda, sydd wedi:**

- datblygu Strategaeth Gweithlu newydd i ganolbwyntio ar les a datblygiad staff
- cyflwyno rhaglen sefydlu newydd i rannu ein gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau ein cynllun sirol gyda gweithwyr newydd
- cefnogi dysgu staff drwy raglen Brentisiaethau/Hyfforddai ac Uwchsgilio newydd.

## 6

**Cyngor sy'n hygyrch ac yn ymgysylltu, sydd wedi:**

•cynnwys staff, trigolion, grwpiau cymunedol a fforymau ar faterion sy'n effeithio arnynt

- cyfathrebu'n agored, yn aml ac yn onest â thrigolion a chynghorwyr
- ailgyflwyno Papur Newydd Cymunedol Llais Torfaen
- ail-lansio Panel Pobl Torfaen, i gynnwys trigolion yn gynnar mewn ymgynghoriadau.

## 7

**Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, sydd wedi:**

- meithrin prosesau ariannol da y mae ein rheolyddion yn eu hystyried yn gadarnhaol
- darparu adroddiadau a rhagolygon ariannol rheolaidd i gynghorwyr
- datblygu 8 ffrwd waith ar wahân dan bennawd 'Prosiect Apollo' i fynd i'r afael â heriau ariannol
- ychwanegu mwy o wydnwch a sefydlogrwydd i'n swyddogaeth gaffael trwy gydweithio â Chyngor Dinas Caerdydd
- denu buddsoddiad o'r tu allan, gan gynnwys ceisiadau llwyddiannus am Gyllid Ffyniant Bro a Chyllid Ffyniant a Rennir.

## 8

**Cyngor sy'n cael ei arwain gan ddata a phrosesau digidol, sydd wedi:**

- cyflwyno Tîm Digidol a Data a datblygu ein Strategaeth Ddigidol yn Gyntaf i Gwsmeriaid i'n helpu ar ein taith i ddod yn gyngor digidol sy'n cael ei arwain gan ddata
- datblygu proffiliau digidol a phersonâu cwsmeriaid i ddeall dewisiadau a theithiau digidol ein cwsmeriaid yn well
- cyflwyno BOT Torfaen ar y wefan i helpu i ateb cwestiynau ein trigolion.

